

Rhieni a Gwarcheidwaid

Bydd y Cyngor yn defnyddio fframwaith sy'n dangos pa gamau y gallai dysgwyr ddisgwyl os bydd camymddwyn yn cael ei hysbysu a'i brofi. Mae detholiad o'r fframwaith hwnnw ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Sicrhewch fod plant yn gadael cartref mewn da bryd i ddal eu bws neu dacsî.

Danfongoch a chasglwch blant iau ar yr un ochr i'r ffordd ag y bydd y bws yn eu casglu a'u gollwng. Sicrhewch bob amser eu bod dan oruchwyliaeth wrth y safle bysiau.

Dysgwch eich plentyn sut i groesi'r ffordd yn ôl a blaen o unrhyw safle bysiau. Sicrhewch nad ydynt yn croesi'r ffordd o flaen neu du ôl i'r bws.

Sicrhewch fod eich plant yn gwybod sut i ymddwyn yn gyfrifol wrth fyrddio a disgyn a phan fyddant ar y bws. Atgoffwch nhw y gall camymddwyn wrth y safle bysiau, neu ar y bws neu dacsî, achosi damweiniau, anafiadau a marwolaeth.

Os ydynt ar eu pennau'u hunain, dysgwch eich plant beth yw'r llwybr mwyaf diogel yn ôl a blaen o'u man codi a gollwng.

Dywedwch wrth y gweithredwr os oes gan eich plant unrhyw anabledau neu anghenion ychwanegol.

Sicrhewch fod eich plant yn gwybod beth i'w wneud os daw'r bws yn hwyr, neu os nad yw'n cyrraedd o gwbl.

Os oes gennych unrhyw broblemau neu bryderon, cysylltwch â'ch ysgol neu Gludiant Teithwyr.

Cofiwch mai chi fydd yn gyfrifol am unrhyw fandaliaeth neu ddifrod a achoswyd gan eich plant.

Cofiwch mai penderfyniad y contractwr yw gweithredu neu beidio ar dywydd garw. Bydd angen i'r contractwr ystyried y tywydd ar adeg y daith a'r amgylchiadau tebygol yn hwyrach yn y dydd. Os nad yw'r contractwr wedi gweithredu yn y bore, ni fydd chwaith yn gweithredu yn y prynhawn, hyd yn oed os yw'r amgylchiadau'n gwella. Gwelwch "Tywydd Garw" isod.

Ni chaiff cyfeillion eich plentyn deithio ar yr un cerbyd oni bai fod ganddynt hawl i fod ar y bws. Gwnewch drefniadau eraill ar gyfer cyfeillion o'r fath os ydynt yn mynd i'ch tŷ i aros dros nos neu fwy.